Cymorth Dŵr Cymru

EBRILL 2010

Dŵr Cymru
Welsh Water

www.dwrcymru.com

PAB0047

Mae tariff Cymorth Dŵr Cymru ar gael i helpu teuluoedd ac unigolion ar incwm isel sydd â chyflyrau meddygol perthnasol drwy gynnig taliadau dŵr is. Bydd angen i chi fodloni meini prawf penodol er mwyn bod yn gymwys, sef:

1. Bod y cyflenwad yn gyflenwad i'r **cartref yn unig**
2. Bod y sawl sy'n talu'r bil neu aelod o'r cartref yn cael budd-dal neu gredyd treth sy'n ei wneud **yn gymwys**
3. Naill ai bod tri neu fwy o blant, o dan 19 oed, yn byw yn y cartref a bod budd-dal plant yn cael ei hawlio ar eu cyfer
4. Neu fod gan rywun yn y cartref gyflwr meddygol sy'n golygu bod angen defnyddio llawer mwy o ddŵr.

Eleni, taliadau tariff Cymorth Dŵr Cymru yw:
£114.00 ar gyfer dŵr a £114.00 ar gyfer carthffosiaeth rhwng 1 Ebrill 2010 a 31 Mawrth 2011.

Os ydych yn defnyddio mesurydd dŵr a bod y taliad a gaiff ei gyfrifo ar sail eich defnydd gwirioneddol a nodir ar y mesurydd, gan ddefnyddio'r tariff mesuredig safonol, yn llai na thariff 'Cymorth Dŵr Cymru', bydd eich bil yn seiliedig ar y darlleniad gwirioneddol. Fel arall ni fydd y bil yn uwch na lefel 'Cymorth Dŵr Cymru'.

Sut i wneud cais:
1. Cwblhewch y ffurflen gais atodedig yn llawn. Darllenwch y nodiadau cyfarwyddyd i'ch helpu i wneud hyn. Dychwelwch y ffurflen wedi'i chwblhau atom gyda'r dystiolaeth ategol angenrheidiol. **Byddwn yn derbyn llungopïau**.
2. Byddwn yn rhoi penderfyniad i chi o fewn 10 diwrnod gwaith.
   - Os na fydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn dweud pam wrthych
   - Os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd y taliadau is yn berthnasol o ddechrau bil eleni, (neu'r dyddiad deiliadaeth os gwnaethoch symud i mewn ar ôl 1 Ebrill 2010). Noder y caiff unrhyw ôl-ddyledion eu cynnwys yn y cynllun talu.

Byddwn yn cysylltu â chi os bydd angen rhagor o wybodaeth arnom.

A oes angen help arnoch i gwblhau'r ffurflen hon?
Gallwch gysylltu â ni drwy ffonio **0800 052 0145** o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9am a 4.30pm, neu ar ddydd Sadwrn rhwng 8.30am a 1.30pm.

Adolygiad Blynyddol
Bob blwyddyn, rhwng mis Ebrill a mis Mehefin, rydym yn cynnal adolygiad blynyddol o gwsmeriaid sydd ar dariff Cymorth Dŵr Cymru. Byddwn yn cysylltu â chi yn ystod y cyfnod adolygu hwn i gadarnhau eich bod yn gymwys i gael y tariff hwn o hyd.

Mae'r llyfryn hwn ar gael mewn fformatau eraill, gan gynnwys tâp sain/CD a phrint mawr.

Am ragor o wybodaeth, ffoniwch 0800 052 0145.

Gwybodaeth Bwysig am Wasanaethau Ychwanegol

Mae Dŵr Cymru yn ymrwymedig i ddarparu safonau gwasanaeth rhagorol i bob un o'n cwsmeriaid. Deallwn fod angen cymorth ychwanegol ar rai o'n cwsmeriaid gyda'r gwasanaethau a ddarperir gennym oherwydd y canlynol:

- eu bod yn anabl
- eu bod yn hŷn
- eu bod yn sâl neu
- fod ganddynt anawsterau dysgu

Os oes gennych gyflwr meddygol sy'n golygu bod angen cyflenwad parhaus o ddŵr, byddwn yn darparu cyflenwad amgen i chi yn ystod ymyriadau brys. Er mwyn manteisio ar y gwasanaeth hwn, mae'n rhaid i chi fod ar ein cofrestr Gwasanaethau Ychwanegol.

Dim ond ein cyflogeion neu'n hasiantau a gaiff weld y wybodaeth a rowch i ni i gofrestru ar gyfer y cynllun hwn. Mae angen y wybodaeth hon arnynt i ddarparu cyflenwad amgen i chi. Caiff yr holl wybodaeth a roddir ei thrin yn gyfrinachol.

Os ydych yn gwneud cais am y tariff hwn am fod gan rywun yn eich cartref gyflwr meddygol, cewch eich cofrestru ar gyfer Gwasanaethau Ychwanegol. Os NA hoffech fod ar ein cofrestr, ticiwch y blwch yn adran 2 o'r ffurflen gais.

A ydych yn gymwys?

A ydych yn gwsmer preswyl?

NA

YDW

A ydych chi, neu unrhyw un yn eich cartref, yn cael unrhyw rai o'r BUDD-DALIADAU NEU GREDYDAU TRETH hyn?

- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar Incwm
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm
- Budd-dal Tai
- Budd-dal y Dreth Gyngor *(ac eithrio person sengl neu ostyngiad i'r anabl)*
- Credyd Pensiwn
- Credyd Treth Gwaith
- Credyd Treth Plant *(heblaw am yr elfen deuluol yn unig)*

NA

YDW/ YDYNT

A oes gennych chi, neu unrhyw un yn eich cartref unrhyw rai o'r CYFLYRAU MEDDYGOL hyn?

- Digroeni (clefyd croen sy'n pilio)
- Clefyd croen diferol *(ecsema, soriasis, briwiau chwyddedig)*
- Anymataliaeth
- Stoma'r abdomen
- Clefyd Crohn
- Llid briwiol y coluddyn
- Methiant arennol sy'n gofyn am ddialysis gartref (heblaw pan fo'r awdurdod iechyd yn cyfrannu at gost y dialysis)
- Cyflwr meddygol arall sy'n golygu bod angen defnyddio llawer mwy o ddŵr

OES

NA

A yw'r unigolyn sy'n cael y budd-dal neu'r credyd treth hefyd yn cael budd-dal plant ar gyfer TRI NEU FWY O BLANT o dan 19 oed sydd mewn addysg amser llawn ac sy'n byw yn eich cyfeiriad?

YDY

Mae'n debygol y byddwch yn gymwys ar gyfer y cynllun. Cwblhewch y ffurflen gais a'i dychwelyd atom gyda'r dystiolaeth y gofynnir amdani.

OES

NA

Nid ydych yn gymwys ar gyfer y cynllun hwn.

Efallai yr hoffech gysylltu â ni ynglŷn â newid i fesurydd neu ffyrdd haws o dalu.

Ffoniwch ni ar 0800 052 0145

NA

Noder: **Nid ydych** yn gymwys ar gyfer y cynllun os ydych yn dyfrio eich gardd â theclyn na ddelir yn y llaw megis taenellwr neu system ddyfrhau ddomestig, neu os oes gennych bwll nofio neu bwll sy'n gallu cadw dros 10,000 o litrau.

Ffurflen gais ar gyfer tariff Cymorth Dŵr Cymru (2010/2011)

Darllenwch y nodiadau'n ofalus cyn cwblhau'r ffurflen hon.

Adran 1

Enw'r unigolyn ar y bil dŵr

Enw cyntaf Mr/Mrs/Miss/Ms: ..... Rhif Cyfeirnod y Cwsmer: .....

Cyfenw: .....

Cyfeiriad Llawn: .....

.....

..... Cod Post: .....

Rhif Ffôn yn ystod y Dydd: ..... Rhif Ffôn gyda'r Nos: .....

Ffôn Symudol: .....

Nodwch y dyddiad pan wnaethoch symud i'r eiddo hwn, os oedd ar ôl 1 Ebrill 2010: ☐

Ynghylch budd-daliadau neu gredydau treth yn y cartref

Pa rai o'r budd-daliadau neu gredydau treth canlynol sy'n cael eu hawlio gan rywun yn eich cartref?
(Ticiwch bob un sy'n berthnasol)

- ☐ Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar Incwm
- ☐ Cymhorthdal Incwm
- ☐ Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar Incwm
- ☐ Credyd Treth Gwaith
- ☐ Credyd Treth Plant *(nid elfen deuluol yn unig)*
- ☐ Budd-dal Tai
- ☐ Budd-dal y Dreth Gyngor *(ac eithrio person sengl neu ostyngiad i'r anabl)*
- ☐ Credyd Pensiwn

Rhowch enw a rhif yswiriant gwladol yr unigolyn sy'n cael y budd-daliadau neu'r credydau treth hyn ☐

Os caiff eich eiddo ei wasanaethu gan fesurydd dŵr, nodwch y canlynol (os yw'n ddiogel):

Rhif y mesurydd: ☐ Dyddiad: ☐

Darlleniad: ☐ Lleoliad y mesurydd: ☐

Adran 1 — I'w chwblhau gan yr unigolyn a enwir ar y bil

I fod yn gymwys ar gyfer y cynllun hwn, mae'n rhaid bod rhywun yn eich cartref yn cael o leiaf un o'r budd-daliadau neu'r credydau treth a restrir. Mae'n rhaid i chi gynnwys llungopi o'r 'hysbysiad o hawl' diweddaraf ar gyfer y budd-daliadau/credyd treth.

Rhaid i'r dyddiad ar yr 'hysbysiad o hawl' fod o fewn y flwyddyn ddiwethaf.

Gan y byddwn yn ffeilio copïau o dystysgrifau, argymhellwn y dylid cuddio unrhyw fanylion banc a nodir cyn eu hanfon atom.

Adran 2 - Cwblhewch yr adran hon neu Adran 3 fel y bo'n briodol

Cyflyrau meddygol sy'n golygu bod angen defnyddio mwy o ddŵr

Enw'r unigolyn sy'n byw yn y cartref ac sydd â chyflwr meddygol sy'n golygu bod angen defnyddio llawer mwy o ddŵr: .....

Pa rai o'r cyflyrau meddygol hyn sydd ganddo? *(Ticiwch bob un sy'n berthnasol)*

- ☐ Digroeni
- ☐ Croen diferol *(ecsema, soriasis, briwiau chwyddedig)*
- ☐ Anymataliaeth
- ☐ Stoma'r abdomen
- ☐ Methiant arennol sy'n gofyn am ddialysis gartref
- ☐ Clefyd Crohn
- ☐ Llid briwiol y coluddyn
- ☐ Cyflwr arall sy'n golygu bod angen defnyddio mwy o ddŵr:

(Nodwch enw'r cyflwr hwn): .....

Rhowch ddisgrifiad byr o'r ffordd y mae eich cyflwr meddygol yn arwain at ddefnyddio mwy o ddŵr: .....

.....

Mae'n rhaid i'ch meddyg teulu, nyrs neu weithiwr meddygol arall â chymwysterau addas stampio'r dyddiad, (gan ddefnyddio stamp yr ysbyty/meddygfa), llofnodi a dyddio'r blwch hwn i gadarnhau bod gennych y salwch sydd wedi'i dicio uchod.

☐

Llofnod Meddyg Teulu/Nyrs: .....

Dyddiad: .....

Enw a chyfeiriad eich meddyg neu ymgynghorydd ysbyty: .....

.....

.....

Adran 2 — Mae angen i ni gael gwybod enw'r unigolyn sydd â'r cyflwr meddygol.

Nodwch y cyflwr(cyflyrau) meddygol sydd gan yr unigolyn drwy dicio'r blychau perthnasol. Os ydych yn cael dialysis yn yr ysbyty, ni fyddwch yn gymwys i gael y tariff hwn.

Os ydych yn gwneud cais am y tariff hwn am fod gan rywun yn eich cartref gyflwr meddygol, cewch eich cofrestru ar gyfer Gwasanaethau Ychwanegol. Os **NA** hoffech fod ar ein cofrestr, ticiwch y blwch. ☐

PWYSIG - mae angen i ni ddeall pam bod y cyflwr meddygol yn arwain at ddefnyddio mwy o ddŵr. Drwy ofyn i'ch meddyg teulu neu nyrs practis lofnodi, stampio a dyddio'r ffurflen hon, ni fydd angen tystysgrif feddygol arall na llythyr gan eich meddyg.

Rhowch fanylion y meddyg neu'r ymgynghorydd a all gadarnhau bod gennych y cyflwr hwn, os oes angen, byddwn yn cysylltu â hwy'n uniongyrchol i egluro'r manylion a roddwyd gennych.

Adran 3 - Cwblhewch yr adran hon neu Adran 2 fel y bo'n briodol.

Teuluoedd sydd â thri neu fwy o blant gartref

❑ (Ticiwch) Rwy'n cadarnhau bod yr unigolyn sy'n cael y budd-daliadau/credydau treth (a nodir yn Adran 1) yn gyfrifol am dri neu fwy o blant o dan 19 oed, sydd mewn addysg amser llawn ac sy'n byw gydag ef yn barhaol, a'i fod yn hawlio budd-dal plant ar eu cyfer.

Rhowch enwau llawn a dyddiadau geni'r plant hyn:

Enw	Dyddiad geni
.....	.....
.....	.....
.....	.....
.....	.....
.....	.....

Adran 3

Dylech dicio'r blwch hwn os yw'r unigolyn sy'n cael y budd-daliadau yn gyfrifol am dri neu fwy o blant o dan 19 oed, sydd mewn addysg amser llawn ac sy'n byw yn y cyfeiriad a nodir ar y bil dŵr, a'i fod yn hawlio budd-dal plant ar eu cyfer.

Rhowch enw llawn a dyddiad geni pob plentyn o dan 19 oed.

Mae'n RHAID i chi gynnwys llungopi o'r 'hysbysiad o hawl' diweddaraf ar gyfer budd-dal plant gyda'r cais hwn.

Os na allwch ddod o hyd i'ch 'hysbysiad o hawl' ar gyfer budd-dal plant, cysylltwch â'r Ganolfan Budd-daliadau Plant.

Adran 4 - Mae'n rhaid i bob ymgeisydd gwblhau'r adran hon

Datganiad - Darllenwch y canlynol yn ofalus cyn ei llofnodi

Rwyf yn datgan bod y wybodaeth rwyf wedi'i rhoi yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth ac rwy'n deall y gall unrhyw wybodaeth anwir wneud fy nghais yn anghymwys.

Byddaf yn hysbysu Dŵr Cymru ar unwaith os bydd fy amgylchiadau'n newid sy'n effeithio ar fy nghais e.e. Newid cyfeiriad.

Rwy'n rhoi caniatâd i'r awdurdod sy'n gweinyddu fy mudd-dal neu gredyd treth roi gwybodaeth i Dŵr Cymru, os oes angen, er mwyn dilysu'r wybodaeth a roddwyd gennyf.

Os wyf wedi gwneud cais ar sail cyflwr meddygol, rwy'n rhoi caniatâd i'r gweithiwr meddygol sy'n gwybod am y cyflwr hwnnw roi gwybodaeth amdano, a'i effaith bosibl ar fy nefnydd o ddŵr i Dŵr Cymru, os oes angen, er mwyn dilysu'r wybodaeth a roddwyd gennyf.

Nid wyf yn dyfrio fy ngardd heblaw am â theclyn a ddelir yn y llaw ac nid oes gennyf bwll nofio na phwll a all gadw dros 10,000 o litrau.

Os penderfynaf gael mesurydd, gallaf ofyn am gael dychwelyd i'r tariff anfesuredig blaenorol ar unrhyw adeg, hyd at fis ar ôl i Dŵr Cymru anfon biliau ar gyfer 12 mis i'r dyddiad y cafodd fy mesurydd ei osod. Rwy'n deall y gall unrhyw gwsmer sy'n camarwain yr ymgymerwr dŵr yn fwriadol, o ran ei hawliad, fod yn cyflawni trosedd yn ymwneud â chael mantais ariannol drwy ddichell a/neu gyflawni twyll yn ymwneud â'r awdurdodau budd-daliadau a threth ac y gallai hyn arwain at gamau troseddol.

Nid wyf yn cael unrhyw gyfraniadau at gost dŵr gan yr Awdurdod Iechyd.

Llofnod: ..... Dyddiad: .....

RHESTR WIRIO

❑ Rwyf wedi cwblhau pob adran sy'n berthnasol i mi ar y ffurflen (sef rhannau 1, 2 a 4 neu 1, 3, a 4).

❑ Rwyf wedi rhoi'r "hysbysiad o hawl" diweddaraf ar gyfer y budd-daliadau neu'r credydau treth.

❑ Os wyf wedi cwblhau adran 2, mae wedi'i llofnodi a'i stampio gan fy meddyg teulu neu Nyrs Practis.

❑ Os wyf wedi cwblhau adran 3, rwyf wedi rhoi'r "hysbysiad o hawl" diweddaraf ar gyfer budd-dal plant pob plentyn a enwir.

❑ Rwyf wedi cwblhau adran 4 drwy ei llofnodi a'i dyddio.

Os na chynhwysir y dogfennau ategol perthnasol, caiff eich cais ei wrthod a'i ddychwelyd atoch.

BYDDWN YN DERBYN LLUNGOPÏAU

Cwblhewch **a llofnodwch** y ffurflen gais a'i dychwelyd gyda'r dogfennau angenrheidiol i:

Dŵr Cymru
Rhadbost SWC 5253
CAERDYDD
CF3 5GY

Sut y daethoch i wybod am y cynllun hwn?

❑ **Ein staff**
❑ **Ar dafod leferydd**
❑ **Ein gwefan**
❑ **Canolfan Cyngor ar Bopeth**
❑ **Cyngor Defnyddwyr Dŵr**
❑ **Arall**